# Y Pwyllgor Busnes: cyfarfod cyhoeddus

## Cofnodion cryno: BC(3)30-10: 16 Tachwedd 2010

Gellir gweld y cyfarfod hwn ar Senedd TV yn: http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_500000_16_11_2010&t=0

**Amser: 9.00 – 10.00**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 4 – Ty Hywel**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Dafydd Elis-Thomas, Meirionnydd Dwyfor
Jane Hutt, Bro Morgannwg
Jocelyn Davies, Dwyrain De Cymru
Nick Ramsay, Mynwy
Peter Black, Gorllewin De Cymru

### Swyddogion yn bresennol

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad
Marion Stapleton, Is-adran Busnes y Cynulliad a Rheoli Deddfwriaeth,
Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol
Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Deddfwriaeth
Sulafa Halstead, Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad
Anna Daniel, Clerc y Pwyllgor Busnes
Llinos Madeley, Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes
James Herman, Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawood y Cadeirydd aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

### Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod blaenorol

2.1 Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar gofnodion y cyfarfod cyhoeddus blaenorol ar 9 Tachwedd 2010.

### Eitem 3: Y Rheolau Sefydlog sy'n ymwneud â busnes pwyllgorau: ystyried gweddill y cynigion

**Papur: BC(3)30-10 Papur 1**

**Paper: BC(3)30-10 Paper 1 – Atodiad A (Saesneg yn unig)**

**Paper: BC(3)30-10 Paper 1 – Atodiad B**

**3.1 Meysydd cyfrifoldeb pwyllgorau: Rheol Sefydlog 12.4**

3.1.1 Cytunodd y Rheolwyr Busnes mewn egwyddor are aileiriad RhS 12.4(i) gan nodi eu bod am ailedrych ar eiriad RhS 12.4(ii) pan fydd y Pwyllgor Busnes yn ystyried y Rheolau Sefydlog sy'n ymwneud â deddfwriaeth.

"Cam i'w gymryd: Ailedrych ar eiriad RhS 12.4(ii) ochr yn ochr ag ystyried y Rheolau Sefydlog sy'n ymwneud â deddfwriaeth."

**3.2 Cynigion ar gyfer meysydd cyfrifoldeb pwyllgorau a bennir gan y Pwyllgor Busnes – trefniadau pleidleisio: Rheol Sefydlog 11.7**

3.2.1 Cytunodd y Rheolwyr Busnes mewn egwyddor y byddai unrhyw benderfyniad a wneir gan y Pwyllgor Busnes ynghylch teitlau a meysydd cyfrifoldeb pwyllgorau yn destun pleidlais gymhwysol, gymwysedig: RhS 11.7(ii)A newydd.

**3.3 Cadeiryddion pwyllgorau: Rheolau Sefydlog 10.18 - 10.19**

3.3.1 Cytunodd y Rheolwyr Busnes mewn egwyddor i ddisodli'r broses sy'n caniatáu i bwyllgorau ethol cadeirydd gyda phroses lle bydd grwpiau gwleidyddol yn rhoi i'r Pwyllgor Busnes enw'r aelod y maent hwy am ei benodi i unrhyw bwyllgor y mae'r cadeirydd yn perthyn i'w grwp gwleidyddol hwy.

"Cam i'w gymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes i ddrafftio diwygiadau i'r Rheolau Sefydlog er mwyn rhoi'r penderfyniad hwn ar waith."

**3.4 Cworwm: Rheol Sefydlog 10.31**

3.4.1 Cytunodd y Rheolwyr Busnes mewn egwyddor y dylid pennu cyfnod terfyn hwyaf o 20 munud yn RhS 10.31 ar ôl datgan nad oes

cworwm i gyfarfod a bod y cyfarfod wedi'i ohirio.

3.4.2 Cytunodd y Pwyllgor, lle y bo'n rhesymol ac yn ymarferol, y dylid rhoi'r disgresiwn i'r cadeirydd ohirio'r cyfarfod cyn y terfyn amser os yw'n ymwybodol na fydd cworwm i'r cyfarfod cyn y terfyn amser hwnnw.

"Cam i'w gymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes i ddrafftio diwygiadau i'r Rheolau Sefydlog er mwyn rhoi'r penderfyniad hwn ar waith."

**3.5 Natur agored y pwyllgorau – cyhoeddi dogfennau: Rheol Sefydlog 10.36A**

3.5.1 Cytunodd y Rheolwyr Busnes mewn egwyddor i fewnosod Rheol Sefydlog newydd i sicrhau y cyfeirir yn benodol at gyhoeddi dogfennau a gyflwynir gan y cyhoedd i'w hystyried gan bwyllgor i ategu'r amddiffyniad cyfreithiol a roddir i'r cynnwys: RhS 10.36A newydd.

3.5.2 Nodwyd, ar gyfer y cofnod, fod hon yn fraint sylweddol i'r Cynulliad ac felly dylai dogfennau gael eu cyhoeddi gan bwyllgorau o dan awdurdod y Cynulliad (er mwyn rhoi amddiffyniad o dan y Ddeddf yn erbyn achosion o ddifenwi neu yn erbyn erlyniad yn sgil dirmygu'r llys) dim ond pan fydd yn rhesymol ac yn briodol gwneud hynny.

**Y cyfarfod nesaf:**

Bydd y Pwyllgor Busnes yn ystyried y canlynol yn ei gyfarfod cyhoeddus nesaf ar 23 Tachwedd 2010:

Swyddi a Phenodiadau'r Cynulliad.